Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:**

# Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc

## Trafodaeth gyda phobl ifanc a staff Voices from Care

Dydd Iau 2 Gorffennaf 2020

## Cefndir

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc, roedd yr Aelodau'n awyddus i glywed yn uniongyrchol gan y rhai yr effeithir arnynt. Fel rhan o'r gwaith hwn, cyfarfu Lynne Neagle AS, Cadeirydd y Pwyllgor, â rhai pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal mewn cyfarfod rhithwir a hwyluswyd gan Voices from Care.

Nodir isod rai o'r pwyntiau allweddol a wnaeth y cyfranogwyr, ac adborth gan blant a phobl ifanc eraill yr oeddent yn eu cynrychioli sydd â phrofiad o ofal. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar dair thema allweddol a gododd o'r pandemig:

- Profiadau cadarnhaol
- Rhwystredigaethau
- Symud ymlaen – sut y gellir gwella'r cymorth?

## Profiadau cadarnhaol

Roedd rhai enghreifftiau o brofiadau mwy cadarnhaol yn ystod y 'cyfyngiadau symud' yn cynnwys:

- Cael mwy o amser i wneud pethau, fel aseiniadau prifysgol ac ymarfer corff.
- Cael mwy o amser i ddilyn hobïau, fel coginio ac ysgrifennu barddoniaeth.
- Sylweddoli 'Dwi'n gallu dibynnu arnaf fy hun'.
- Cael mwy o amser i gysylltu â phobl eraill ar-lein.

- Cael mwy o amser i gael biliau'r cartref yn ôl i drefn.
- Gallu meithrin perthynas gryfach gyda gweithwyr cymdeithasol / cynghorwyr personol – 'mae fy ngweithiwr cymdeithasol yn galw unwaith neu ddwywaith yr wythnos ac yn anfon neges destun ers y cyfyngiadau symud'.

Dywedodd y staff fod lleoliadau wedi 'bod yn gryf mewn gofal maeth' a dim ond mewn lleiafrif o achosion yr oedd lleoliadau wedi methu, yn ôl y sôn, oherwydd pwysau'r plant yn y tŷ drwy'r amser. Dywedodd y staff fod hyn, yn eu barn hwy, yn adlewyrchu'n dda ar gymhellion gofalwyr maeth o gofio bod y rhan fwyaf o leoliadau wedi parhau'n llwyddiannus er gwaethaf pwysau sylweddol.

Dywedodd cyfranogwyr y bu llawer o brofiadau cadarnhaol ymhlith y gymuned sydd â phrofiad o ofal o ran cysylltu ar-lein a chael cyngor a chymorth. Fodd bynnag, nodwyd bod diffyg mynediad at gysylltedd da (e.e. oherwydd ddiffyg data symudol, caledwedd, neu broblemau Wi-Fi) ac—mewn rhai achosion—sgiliau digidol gwael, yn broblemau mawr.

## Rhwystredigaethau

Roedd rhai enghreifftiau o rywstredigaethau a gafwyd yn ystod y 'cyfyngiadau symud' yn cynnwys:

- Person ifanc mewn Addysg Uwch yn sôn am ddiffyg cefnogaeth gan ddarlithwyr ac yn methu â chael gwybod pryd y maent ar gael i gwrdd yn rhithwir.
- Tensiynau oherwydd nad yw rhai pobl ifanc yn deall 'rheolau cyfyngiadau symud' ac eisiau ymweld â theulu a ffrindiau. Teimlwyd bod gan hyn y potensial i atgyfnerthu barn bresennol rhai plant sydd â phrofiad o ofal 'bod rhywun yn dweud wrthynt beth i'w wneud drwy'r amser'. Roedd teimlad y byddai mwy o wybodaeth wedi'i hanelu at bobl ifanc yn ddefnyddiol fel y gallai pobl sydd â phrofiad o ofal weld bod y rheolau'n berthnasol i bawb ac nid i'r rhai mewn gofal yn unig.
- Pobl ifanc mewn cymunedau gwledig sy'n gadael gofal yn cael trafferth o ran ynysu a heb allu cyrraedd siopau bwyd yn hawdd. Fodd bynnag, adroddwyd bod rhai awdurdodau lleol wedi bod yn dda am ddosbarthu parseli bwyd.
- Mae rhai pobl sy'n gadael gofal yn wynebu heriau oherwydd eu bod wedi gorfod cefnogi perthnasau hŷn a oedd yn hunanynysu.

- Un thema fawr oedd problemau o ran cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig i'r[1] grŵp o blant ifanc "y cannol coll" sydd â phrofiad o ofal. Dywedodd staff 'nad yw pob sefyllfa'n gweithio'n ddigidol' o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl a, phan fydd angen help ar bobl ifanc, ar ôl 5.00pm mae hynny fel arfer. Nodwyd pryderon ganddynt hefyd fod sôn am bobl ifanc yn cael eu cadw yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gan nad oedd unrhyw leoliadau ar gael. Teimlwyd y byddai 'cynnig gweithredol' o gymorth iechyd meddwl yn helpu i fynd i'r afael ag ystod eang o bryderon iechyd meddwl.

## Symud ymlaen: sut y gellir gwella'r cymorth?

Roedd rhai awgrymiadau a syniadau ynghylch sut y gellid gwella cymorth yn cynnwys:

- Defnyddio mwy o dechnoleg i gadw mewn cysylltiad â brodyr a chwiorydd, teulu a gweithwyr cymdeithasol. Teimlwyd y byddai hyn hefyd o fudd mawr i blant a phobl ifanc a gaiff eu lleoli 'y tu allan i'r sir'.

- Mabwysiadu rheolau mwy 'rhesymol' ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn gofal preswyl a gofal maeth i fynd i'r afael ag amrywiaeth o bryderon a godwyd gan blant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiadau bod ffonau'n cael eu cymryd oddi ar blant a phobl ifanc am 6.30pm bob nos, Wi-Fi yn cael ei ddiffodd mewn gofal preswyl, a phryderon bod rhai gofalwyr yn edrych drwy negeseuon. Ystyriwyd bod hyn i gyd yn atal plant a phobl ifanc rhag cadw cysylltiad da a phriodol â theulu a ffrindiau.

- Gwella cyfranogiad plant a phobl ifanc yn eu 'hadolygiadau o blant sy'n derbyn gofal' gyda chymorth eiriolaeth cyson.

- Canolbwyntio mwy ar anghenion plant sydd â phrofiad o ofal yn y system addysg a gwell arweiniad i ysgolion.

---

Caiff yr ymadrodd "y canol coll" ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio'r plant a'r bobl ifanc hynny y mae angen cefnogaeth arnynt ym maes iechyd meddwl, ond nad ydynt efallai'n ddigon gwael i fod angen – neu'n bodloni'r meini prawf i gael - cymorth gan wasanaethau arbenigol.